



Strategaeth Mynediad

Nodau ac amcanion ein gwasanaeth

Mae Archifau Morgannwg yn ceisio sicrhau bod ei ddaliadau ar gael i'r gynulleidfa ehangaf bosibl tra'n ystyried ei randdeiliaid, fel y diffinnir yn ei Bolisi Mynediad. Gellir cael mynediad drwy wasanaethau amrywiol a gynigir gan yr Archifau, gan gynnwys mynediad ar-safle i unigolion a grwpiau, mynediad o bell drwy ddulliau gohebu ac electronig a thrwy weithgareddau ymrwymiad cymunedol yn annibynol ac mewn partneriaeth ag eraill.

Mae Strategaethau Ymrwymiad Cymunedol wedi'u llunio a dylid cyfeirio ato ochr yn ochr â'r strategaeth mynediad.

Mae sicrhau mynediad yn un o swyddogaethau allweddol Archifau Morgannwg fel y nodir yn ein dogfen *Polisi Mynediad* ac adlewyrchir hyn yn y targedau sy'n ymwneud â mynediad a nodir yng nghynlluniau busnes blynyddol yr Archifau. Mae Archifau Morgannwg yn mynd i'r afael â materion cydraddoldeb a chynhwysiant cymdeithasol a mynediad ffisegol i'w wasanaethau. Byddwn yn manteisio ar bob cyfle i gyfathrebu â defnyddwyr, gan ofyn am eu barn a'u safbwyntiau ar wasanaethau drwy ffurflenni adborth ac arolygon. Lle'n bosibl, bydd Archifau Morgannwg yn ymateb ac yn gwneud gwelliannau i adlewyrchu buddiannau ei randdeiliaid. Mae Archifau Morgannwg yn rheoli adnoddau i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl tra'n ceisio arloesi ac ystyried effeithiolrwydd ei waith.

Yr hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni

- Mae adeilad Archifau Morgannwg yn hollol hygyrch i'n ymwelwyr oll
- Mae'r wefan yn cydymffurfio â chanllawiau hygyrchedd a chaiff y wybodaeth ei diweddarau yn reolaidd.
- Mae'r holl wybodaeth cyhoeddus ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- Rhoddir ymateb i'r holl ymholiadau, sylwadau a chwynion o fewn 10 diwrnod gwaith.
- Bydd staff wedi'u hyfforddi wrth law i roi cyngor ar weithdrefnau ac adnoddau pan fo ymwelwyr yn ymweld â'r ystafell chwilio neu'n cysylltu â'r Archifau drwy modd arall.
- Bydd pob aelod o staff yn arddangos eu henwau a'u swyddi ac yn ymddwyn yn gwrtais gyda phob defnyddiwr.
- Mae'r wybodaeth a'r cyngor diweddaraf ar gyfleusterau, ffynonellau a gwasanaethau ar gael ar y safle ac arlein.

- Gellir gwneud ymholiadau drwy e-bost, post, dros y ffôn neu drwy rhydweithiau cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â thrwy ymweliadau personol.
- Arwyddion clir i bwyntiau mynediad ar y safle a phwyntiau cysylltu o bell.
- Oriau agor priodol sy'n cyfateb i batrymau defnydd.
- Bydd gwybodaeth am gasgliadau newydd eu caffael yn cael ei chyhoeddi bob chwarter, tra bydd disgrifiadau ar lefel y casgliadau ar gael o fewn 10 diwrnod gwaith; bydd galw yn ffactor wrth werthuso casgliadau ar gyfer catalogio manwl.
- Bydd yr holl gymhorthion canfod yn cydymffurfio â safonau archifol.
- Bydd gweithdrefnau'n cael eu cadw mor syml â phosibl a byddwn yn eu hegluro'n glir i'r holl ddefnyddwyr newydd.
- Byddwn yn cyflawni archebion am ffotocopiau o fewn 10 niwrnod gwaith os yw natur y cofnod yn caniatáu copïo.
- Darperir trefniadau diogel ar gyfer eiddo personol.
- Darperir socedi trydan ar gyfer defnyddio offer TG personol.
- Mae cyfarpar trydanol yn cael ei gynnal a'i gadw ac mewn cyflwr da.

Yr hyn rydym ni'n ei ddisgwyl gennych chi, y defnyddiwr

- Cofrestru fel defnyddwyr y gwasanaeth wrth ymweld â'r Archifau am y tro cyntaf drwy ddod â thystiolaeth o'ch enw a'ch cyfeiriad, a chytuno i ddarllen a chydymffurfio â'r rheoliadau a nodir yn *Rheolau'r Ystafell Chwilio*.
- Dilyn y canllawiau *Trin Dogfennau* a chyngor staff ar drafod deunyddiau archifol yn ofalus er mwyn sicrhau bod yr adnoddau unigryw hyn yn cael eu gwarchod yn briodol.
- Dangos parch ac ystyried defnyddwyr eraill a staff.
- Darparu sylwadau ac awgrymiadau ar wella'r gwasanaeth drwy lenwi ffurflen adborth a chymryd rhan yn ein harolygon defnyddwyr.

Cyfyngiadau ar Fynediad

- Gellir gweld a darllen cofnodion gwreiddiol dan oruchwyliaeth yn adeilad Archifau Morgannwg yn unig.
- Gellir cyfyngu ar fynediad i gofnodion sy'n cynnwys gwybodaeth am unigolion a enwir yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.
- Efallai na fydd rhai cofnodion ar gael oherwydd eu cyflwr bregus neu ofynion cadwraeth.